NASUWT THE TEACHERS' UNION

ANNUAL CONFERENCE 25 LIVERPOOL

# PRESIDENT'S ADDRESS

# President's Address

Good morning, Conference.

Welcome to this wonderful city of Liverpool. It's the first time we have been here as NASUWT, The Teachers' Union. Enjoy your time here.

Well, this is different. Those that have seen me stand here before know that I normally get up, make my point and sit down again, so no rush for me this time.

Firstly, I would like to thank Patrick, the staff behind him, and the ACC staff that put in all the work to get to this point here for us all at Conference. There is a lot that goes on behind the scenes before and after Conference, and they do an excellent job to ensure it all runs smoothly. Later in the Conference, Patrick will get the chance to do a turn, with his Speech to Conference. However, I personally would like to thank Patrick for his time and devotion to this union for almost 30 years. I have known him mainly for the last 15 years, since I became an NEM. I wish him well in whatever he is going on to do. Thanks, Patrick.

I follow three excellent female Presidents, Angela, Rosemary and Rashida, who have each led the Union extremely well. During my Vice-President years, they have supported and encouraged me, and I look forward to their support for the year ahead. We now have three male Presidents ahead, so hopefully someone out there can step forward for the next JVP and become the 11th female President in 2028. I follow a tradition of Presidents from the North East, I'm the 14th, and we already have the 15th joining us as an Officer. Welcome, Dan.

I'd also like to take this opportunity to thank my family for being here today to support me: my mum, dad and my three children, with their partners. Over the years as an activist, I do wish I could have spent more weekends with them, but will look forward to spending more time with them after this role.

So a little about me: I am a union man, 12 years in the NUM and the last 33 years in NASUWT. I believe that if your union asks you to do something, you take their advice and do it, whether that is to respond to a vote on action, in your workplace or nationally, or to take strike action. This happened to me in 1984; as a miner, I was on strike for a full year. It was a hard time for me and my parents, but I stuck to it; I believed in the cause.

Now, here I am – President of The Teachers' Union, NASUWT. The largest union only for teachers throughout the UK and crown dependencies. We need to be proud of that and say it all the time: The Teachers' Union, NASUWT. Even though I'm now President, at the end of the day I'm Wayne Broom, a proud NASUWT member, just like all our members, no different to anyone else in the Union.

So where did it all start for me being active? As a school rep, where probably most of us start. The union rep was retiring, he organised a meeting and asked the members who would like to step up and become rep. No-one moved. Straight after the meeting, I asked what it involved and then asked a very important question: 'How much do you get paid for doing it?' 'Absolutely nothing, it's voluntary.' 'OK, I'll still do it.' That was me then hooked; I did rep training, health and safety training; got involved with all the Committees at Regional Centre; the more I did, the more I was hooked and enjoying the union role. Especially when I used to advise my headteachers that they can't do what they are asking teachers to do (after a little chat, they agreed). I was asked to become Middlesbrough's organiser, and got some facility time to visit schools and try and get more reps, or at least a 'Voice in Every Workplace'.

My first Conference was back in 2003 in Bournemouth when another North East President took office, Terry Bladen. As a maths teacher, he spoke about the needs of the individual student. GCSE maths was not for everyone; as a classroom practitioner, I agree. I now work in a college and have seen students who couldn't do maths go on to thrive in the right environment and develop skills that will serve them for life.  We need to learn the lessons of

the damage done to young people's love of learning when the system brands them as 'failing' because of a narrow obsession with academic knowledge. In the UK Government's review of curriculum and assessment, I would like to see developments in applied learning embedded as an entitlement, which recognises the importance of functional skills in the modern world.

I never thought I would be a National Executive Member, and an Officer was far from my mind, until I was persuaded on both. Firstly, by Sue Foreman to be NEM, from 2010 until 2018. Then, by John Hall to go for JVP. Now, here as President, I can't believe it myself, but I will always aim to do the best I can, as I have in all my roles in the Union.

When I became a miner, I joined the union for miners: the NUM. Teachers need to join the union just for teachers. I'll say this again, our union is for all teachers, the largest teachers' union throughout the UK and the crown dependencies. We're a union that focuses on the needs and issues of teachers. We are putting teachers first; I'll say again, putting teachers first. That should be the priority of any government. It should be the priority of all governing bodies and all senior management teams throughout the land. Unfortunately, in many schools and colleges, it is not, and for the previous government it hasn't been a priority for 14 years. This had led to a major recruitment and retention crisis in the education sector. We have too many teachers leaving education due to adverse management practices, having too much workload, being expected to work longer hours, lack of autonomy, and mistreatment as professionals.

I joined a Facebook group called 'Life after Teaching'; there were around 12,000 teachers on it, looking at ways of getting out of education or just a place to vent what is happening to them at their school and looking for advice. Now there are over 170,000 on it. That's just mad.

Here are just two stories on why some got out:

'I'm a teacher, soon leaving and starting a new journey.

'I'm genuinely curious as to why teachers are feeding into the culture of working constantly and going above and beyond.

'If teachers want the system to change, they are the only people who can make it work. Stop working more hours than you are paid for. If you are paid for 35, work 35. Stop feeling you need to go into work sick. Stop taking work home. Stop letting it consume your life. Learn to say no. What doesn't get done doesn't get done.

'I'm super sad to keep reading about people thinking of suicide, sick with stress, crying, losing time with their children. It's not worth it. Life is too short. But unless teachers just STOP, then the sad reality is that we are enabling this culture. We are making it harder for future teachers.'

The second story is this:

'I've cried a lot this evening. It's going to be a grieving process, but I'm ready to find myself again.

'I am a teacher. I am an outstanding teacher, who cares for the lives of young people. I am an incredible teacher, who plans effectively. I am a wonderful teacher, who makes learning fun. I am a passionate teacher. I am a driven teacher. I am a super teacher, who provides quality feedback and celebrates great progress. I am a teacher who wants to leave the classroom. I am a person who wants to feel valued. I am an individual who wants to be respected for their knowledge and expertise. I am a sad, stressed, never-good-enough, never thanked or appreciated, never-lifted-up or praised teacher. I am a person hurt by a broken system of fear and manipulation. I am anxious. I am replaceable. I am… no longer… a teacher.'

Why, why are we losing teachers like this? Undervalued teachers who would rather be in the classroom, if they were supported by a management team, for what was best for them, best for the school and best for the students. There are many more stories like that and I wish I could read more of them.

We have a Labour Government, who are traditionally supposed to support public sector workers. We have not wasted any time dealing with them. Before the last election we published our own Manifesto for Education, *A New Deal for Teachers*, the GS has had numerous meetings with the Secretary of State and stressed that there needs to be investment put into education and teachers. In January there was the launch of the IET, Improving Education Together, a new form of social partnership. It is aimed at securing a better future for pupils and teachers, including supply teachers, in schools and colleges: to secure more funding, especially for SEN; to improve teacher pay, including pay restoration; to look at accountability, another driving force making teachers leave education. However, whilst we should welcome this development, we must not wait for improvements to happen; we will take action when required to secure the changes we need to see. So I'd like to congratulate all those who have taken that step to take action all around the UK, on pensions, behaviour and pay. Employers need to be with us on this, in leading by example and stopping the adverse management practices we are having to take action to deal with.

I've been an advocate, voice and champion for supply teachers for many years. I was one for seven years, so have been there, seen it and done it. I have brought many motions to Conference and have set union policy, raised wider awareness at every level the challenges faced by supply teachers… they still have not gone away. I know how supply teachers are treated impacts on how all teachers will be treated and we are seeing evidence of that, with attacks on the pay, pensions and working conditions of permanently employed teachers, attacks which for too long have been endured by supply teachers. Supply teachers need to be in the only union that will fight their cause. There needs a huge investment put in for supply teachers, for their ongoing professional development, better pay and conditions for them. Supply teachers need to be valued by the Government and by employers. And I will pledge to make the rights of supply teachers my priority during my year as President.

There are challenges ahead. We have a report on AI later in Conference and while there are many potential significant benefits, we also need to be aware of the risks to teaching jobs. So we should embrace the advantages that come with AI, but make it our priority to preserve the importance of the teacher as a human being that inspires and creates a future generation, that installs values and respects the needs to educate the whole human being.

Another challenge is the increase in the far right movement. Education is a powerful catalyst for change. I have been on marches and demos against the far right in the North East and nationally. We have been part of the call for action at the TUC, EI and ETUCE. This is a responsibility for the entire education system: to say no to extremism and to create the society in which everyone is valued and respected. If we see it, hear it, we need to speak, yell if needed, to show that it is wrong and it can't be tolerated. It's not just banter, end of.

Let it be said from this Conference that we come together and continue to improve the lives of all teachers and the children in education. We all need to go out there and have these three words on our mind, RECRUIT, RETAIN AND RECLAIM. We need to recruit more teachers into our union, The Teachers' Union. We need to retain the staff we have in schools by making the workplace a better place to be, to let teachers teach, their own way. We do this by reclaiming the profession; we are the professionals, and we are the ones that are in the classroom day in, day out. We know how to deliver lessons. We know how to support all children, including those with special needs. We just ask for the support and resources to enable us to do our jobs.

This year I aim to be here, there and everywhere, supporting members. With resolve and determination, we can work it out to make this profession more attractive, to make our system a world-class education throughout the UK. A high-quality education for all includes recognising the critical role of highly qualified and well supported teachers. Now and then I may not get things right, or I may not make decisions that some members or National Executive agree with, but throughout my year I will always aim to make the right ones.

I’d like to see all state-funded schools and colleges in England following the STCPD, with no detriment. They must pay into the facility pot that is accessed by the recognised trade unions. They must allow reps to be released for training. They must have trade union recognition agreements.

We need A Better Deal for Teachers.

Better pay and pay restoration.

Better working conditions.

More time for PPA.

Rapid reduction in working hours.

Rapid reduction in workload.

Get back to what we had, not what CEOs think we should be doing more of.

No forced extracurricular activities.

No cover.

No expectation to accept verbal abuse.

No expectation to accept physical assault. No-one who works in a school should accept this.

No made-up informal capabilities, to just find an excuse to get rid of teachers, usually more expensive ones.

You out there are the next Secretaries, the next National Executive Members, the next Officers. We all need to come together, right now, to ensure that we all move forward in bringing the changes we need to make this profession the best it can be.

I’ll leave you with this, which I believe is how we all should be thinking, but I know not everyone.

Remember, you are not working for the children, your teaching colleagues, SLT, Board of Governors, academy management or the CEO.

YOU ARE WORKING FOR YOU.

Your ability to pay your mortgage, rent, put food on the table for you and your own family, fuel in the meter, clothes on your back and maybe the occasional drink in the local pub, nothing more.

Don’t let anyone’s ‘it’s for the children’ tell you otherwise.

Love the one you’re with, love your union, because we are The Teachers’ Union, NASUWT.

Thank you, Conference.

# Anerchiad y Llywydd

Bore da, Gynhadledd.

Croeso i ddinas hyfryd Lerpwl. Dyma'r tro cyntaf i ni fod yma fel NASUWT, Undeb yr Athrawon. Mwynhewch eich amser yma.

Wel, mae hyn yn wahanol. Mae'r rhai sydd wedi fy ngweld yn sefyll yma o'r blaen yn gwybod fy mod fel arfer yn codi, yn gwneud fy mhwynt ac yn eistedd i lawr eto, felly dim rhuthro i mi y tro hwn.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Patrick, y staff y tu ôl iddo, a staff y ganolfan hon a wnaeth yr holl waith i gyrraedd y pwynt hwn yma i ni i gyd yn y Gynhadledd. Mae llawer yn digwydd y tu ôl i'r llenni cyn ac ar ôl y Gynhadledd, ac maent yn gwneud gwaith rhagorol i sicrhau bod y cyfan yn rhedeg yn esmwyth. Yn ddiweddarach yn y Gynhadledd, bydd Patrick yn cael cyfle i'ch cyfarch, gyda'i Araith i'r Gynhadledd. Fodd bynnag, hoffwn yn bersonol ddiolch i Patrick am ei amser a'i ymroddiad i'r undeb hwn am bron i 30 mlynedd. Rwyf wedi ei adnabod am y 15 mlynedd diwethaf, ers i mi ddod yn APG. Dymunaf yn dda iddo ym mha beth bynnag y mae'n mynd ymlaen i'w wneud. Diolch, Patrick.

Rwy'n dilyn tair Llywydd ardderchog, Angela, Rosemary a Rashida, sydd ill tair wedi arwain yr Undeb yn arbennig o dda. Yn ystod fy nghyfnod fel Is-lywydd, maent wedi fy nghefnogi a'm hannog, ac edrychaf ymlaen at eu cefnogaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bellach mae gennym dri llywydd gwrywaidd o'n blaenau, felly gobeithio y gall rhywun allan yna gamu ymlaen ar gyfer yr Is-Lywydd Llai nesaf a dod yn 11eg llywydd benywaidd yn 2028. Rwy'n dilyn traddodiad o lywyddion o'r gogledd ddwyrain, fi yw'r 14eg, ac mae gennym y 15fed yn ymuno â ni fel Swyddog. Croeso, Dan.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ddiolch i fy nheulu am fod yma heddiw i'm cefnogi: fy mam, fy nhad a'm tri phlentyn, gyda'u partneriaid. Dros y blynyddoedd fel actifydd, hoffwn pe bawn wedi treulio mwy o benwythnosau gyda nhw, ond byddaf yn edrych ymlaen at dreulio mwy o amser gyda nhw ar ôl y rôl hon.

Felly ychydig amdanaf i: rydw i'n ddyn undeb, 12 mlynedd yn yr NUM a'r 33 mlynedd diwethaf yn NASUWT. Credaf os bydd eich undeb yn gofyn ichi wneud rhywbeth, eich bod yn cymryd eu cyngor ac yn ei wneud – boed hynny i ymateb i bleidlais ar weithredu, yn eich gweithle neu'n genedlaethol, neu i streicio. Digwyddodd hyn i mi ym 1984; fel glöwr bûm ar streic am flwyddyn gyfan. Roedd yn amser caled i mi a fy rhieni, ond glynais ato; Roeddwn i'n credu yn yr achos.

Nawr, dyma fi – Llywydd Undeb yr Athrawon, NASUWT. Yr undeb mwyaf yn unig ar gyfer athrawon ledled y DU a dibyniaethau'r goron. Mae angen i ni fod yn falch o hynny a'i ddweud drwy'r amser: Undeb yr Athrawon, NASUWT. Er fy mod bellach yn Llywydd, ar ddiwedd y dydd rydw i'n Wayne Broom, aelod balch o NASUWT, yn union fel ein holl aelodau, yn ddim gwahanol i unrhyw un arall yn yr Undeb.

Felly ble ddechreuodd y cyfan i mi fod yn weithgar yn yr undeb? Fel cynrychiolydd ysgol, lle mae'n debyg bod y rhan fwyaf ohonom yn dechrau. Roedd cynrychiolydd yr undeb yn ymddeol, trefnodd gyfarfod a gofynnodd i'r aelodau pwy hoffai gamu i fyny a dod yn gynrychiolydd. Ni symudodd neb. Yn syth ar ôl y cyfarfod, gofynnais beth oedd yn ei olygu ac yna gofyn cwestiwn pwysig iawn: 'Faint ydych chi'n cael eich talu am ei wneud?' 'Dim, mae'n wirfoddol.' 'Iawn, fe wnaf o hyd.' Dyna fi wedi gwirioni wedyn; fe wnes i hyfforddi fel cynrychiolydd, hyfforddiant iechyd a diogelwch; cymryd rhan gyda holl bwyllgorau'r ganolfan ranbarthol. Po fwyaf wnes i, y mwyaf roeddwn i wedi gwirioni ac yn mwynhau rôl yr undeb. Yn enwedig pan oeddwn yn arfer cynghori fy mhenaethiaid na allant wneud yr hyn y maent yn gofyn i athrawon ei wneud (ar ôl sgwrs fach, fe gytunon nhw). Gofynnwyd i mi ddod yn drefnydd Middlesbrough, a chael rhywfaint o amser cyfleuster i ymweld ag ysgolion a cheisio cael mwy o gynrychiolwyr, neu o leiaf 'Llais ym Mhob Gweithle'.

Roedd fy nghynhadledd gyntaf yn ôl yn 2003 yn Bournemouth pan ddaeth llywydd arall o'r gogledd ddwyrain i'w swydd, Terry Bladen. Fel athro mathemateg, siaradodd am anghenion y myfyriwr unigol. Nid oedd TGAU mathemateg at ddant pawb ac fel ymarferydd dosbarth, rwy'n cytuno. Rwyf bellach yn gweithio mewn coleg ac wedi gweld myfyrwyr na allent wneud mathemateg yn mynd ymlaen i ffynnu yn yr amgylchedd cywir a datblygu medrau a fydd yn eu gwasanaethu am oes. Mae angen inni ddysgu gwersi am y niwed a wneir i gariad pobl ifanc at ddysgu pan fydd y system yn eu nodi fel 'methiant' oherwydd obsesiwn cul â gwybodaeth academaidd. Yn adolygiad Llywodraeth y DU o'r cwricwlwm ac asesu, hoffwn weld datblygiadau mewn dysgu cymhwysol yn cael eu hymgorffori fel hawl, sy'n cydnabod pwysigrwydd sgiliau swyddogaethol yn y byd modern.

Ni feddyliais erioed y byddwn yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, ac roedd swyddog ymhell o fy meddwl nes imi gael fy mherswadio ar y ddau. Yn gyntaf, gan Sue Foreman i fod yn APG o 2010 tan 2018. Yna, gan John Hall i fynd am swydd is-lywydd llai. Nawr, yma fel llywydd, ni allaf ei gredu fy hun, ond byddaf bob amser yn anelu at wneud y gorau y gallaf, fel yr wyf wedi yn fy holl rolau yn yr Undeb.

Pan ddeuthum yn löwr, ymunais ag undeb y glowyr: yr NUM. Mae angen i athrawon ymuno â'r undeb ar gyfer athrawon yn unig. Fe ddywedaf hyn eto, mae ein hundeb ar gyfer pob athro, yr undeb athrawon mwyaf ledled y DU a dibyniaethau'r goron. Rydym yn undeb sy'n canolbwyntio ar anghenion a materion athrawon. Rydym yn rhoi athrawon yn gyntaf; fe ddywedaf eto, rhoi athrawon yn gyntaf. Dylai hynny fod yn flaenoriaeth i unrhyw lywodraeth. Dylai fod yn flaenoriaeth i bob corff llywodraethu a phob uwch dîm rheoli ledled y wlad. Yn anffodus, mewn llawer o ysgolion a cholegau, nid ydyw, ac nid yw wedi bod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth flaenorol ers 14 mlynedd. Roedd hyn wedi arwain at argyfwng recriwtio a chadw staff difrifol yn y sector addysg. Mae gennym ormod o athrawon yn gadael addysg oherwydd arferion rheoli anffafriol, bod â gormod o lwyth gwaith, bod disgwyl iddynt weithio oriau hirach, diffyg ymreolaeth, a chamdriniaeth fel gweithwyr proffesiynol.

Ymunais â grŵp Facebook o'r enw 'Life after Teaching'; roedd tua 12,000 o athrawon arno, yn edrych ar ffyrdd o ddod allan o addysg neu fel lle i wyntyllu beth sy'n digwydd iddynt yn eu hysgol a chwilio am gyngor. Nawr mae dros 170,000 arno. Mae hynny'n hurt.

Dyma ddwy stori yn unig am pam aeth rhai allan:

'Athro ydw i, yn gadael yn fuan ac yn cychwyn ar daith newydd.

'Rwy'n wirioneddol rhyfeddu pam mae athrawon yn bwydo i mewn i'r diwylliant o weithio'n gyson a mynd y tu hwnt i'r disgwyl.

'Os yw athrawon eisiau i'r system newid, nhw yw'r unig bobl sy'n gallu gwneud iddi weithio. Rhoi'r gorau i weithio mwy o oriau nag y telir i chi amdanynt. Os cewch eich talu am 35, gweithiwch 35. Peidiwch â theimlo bod angen i chi fynd i'r gwaith yn sâl. Rhoi'r gorau i fynd â gwaith adref. Stopiwch adael iddo lyncu eich bywyd. Dysgwch i ddweud na. Nid yw'r hyn nad yw'n cael ei wneud yn cael ei wneud.

'Rwy'n hynod drist i barhau i ddarllen am bobl yn meddwl am hunanladdiad, yn sâl gyda straen, yn crio, yn colli amser gyda'u plant. Nid yw werth o. Mae bywyd yn rhy fyr. Ond oni bai bod athrawon yn STOPIO, yna'r realiti trist yw ein bod yn galluogi'r diwylliant hwn. Rydyn ni'n ei gwneud hi'n anoddach i athrawon y dyfodol.'

Dyma'r ail stori:

'Rydw i wedi crio llawer heno. Mae'n mynd i fod yn broses alarus, ond rwy'n barod i ddod o hyd i fy hun eto.

'Athro ydw i. Rwy'n athro rhagorol, sy'n gofalu am fywydau pobl ifanc. Rwy'n athro anhygoel, sy'n cynllunio'n effeithiol. Rwy'n athrawes wych, sy'n gwneud dysgu'n hwyl. Rwy'n athro angerddol. Rwy'n uwch athrawes, sy'n darparu adborth o safon ac yn dathlu cynnydd gwych. Athro ydw i sydd eisiau gadael y dosbarth. Rwy'n berson sydd eisiau teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi. Rwy'n unigolyn sydd am gael ei barchu am ei wybodaeth a'i arbenigedd. Rwy'n athro trist, dan straen, byth ddigon da, byth yn gweld diolch na gwerthfawrogiad,

byth yn cael fy hybu, byth yn cael canmoliaeth. Rwy'n berson sy'n cael fy mrifo gan system doredig o ofn a thrin. Rwy'n bryderus. Yr wyf yn dafladwy. Nid wyf yn… mwyach… yn athro.'

Pam, pam rydyn ni'n colli athrawon fel hyn? Athrawon heb eu gwerthfawrogi y byddai'n well ganddynt fod yn yr ystafell ddosbarth, pe baent yn cael eu cefnogi gan dîm rheoli, am yr hyn oedd orau iddynt, y gorau i'r ysgol a'r gorau i'r myfyrwyr. Mae yna lawer mwy o straeon felly ac fe allwn ddarllen llawer mwy ohonynt.

Mae gennym Lywodraeth Lafur, sydd yn draddodiadol i fod i gefnogi gweithwyr y sector cyhoeddus. Nid ydym wedi gwastraffu unrhyw amser yn delio â nhw. Cyn yr etholiad diwethaf cyhoeddwyd ein Maniffesto Addysg ein hunain, Bargen Newydd i Athrawon, mae'r ysgrifennydd cyffredinol wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a phwysleisiodd fod angen buddsoddi mewn addysg ac athrawon. Ym mis Ionawr, lansiwyd IET, Gwella Addysg Gyda'n Gilydd, math newydd o bartneriaeth gymdeithasol. Ei nod yw sicrhau dyfodol gwell i ddisgyblion ac athrawon, gan gynnwys athrawon llanw, mewn ysgolion a cholegau: i sicrhau mwy o gyllid, yn enwedig ar gyfer AAA; gwella cyflog athrawon, gan gynnwys adfer cyflog; i edrych ar atebolrwydd, pwys arall sy'n gwneud i athrawon adael addysg. Fodd bynnag, er y dylem groesawu'r datblygiad hwn, rhaid inni beidio ag aros i welliannau ddigwydd; byddwn yn cymryd camau pan fo angen i sicrhau'r newidiadau y mae angen i ni eu gweld. Felly hoffwn longyfarch pawb sydd wedi cymryd y cam hwnnw i weithredu ledled y DU, ar bensiynau, ymddygiad a chyflog. Mae angen i gyflogwyr fod gyda ni ar hyn, wrth arwain trwy esiampl ac atal yr arferion rheoli andwyol y mae'n rhaid i ni gymryd camau i ddelio â nhw.

Rwyf wedi bod yn eiriolwr, yn llais ac yn hyrwyddwr athrawon llanw ers blynyddoedd lawer. Roeddwn i'n un am saith mlynedd, felly dwi wedi bod yno, ei weld a'i wneud. Rwyf wedi dod â llawer o gynigion i'r gynhadledd ac wedi llunio polisi undeb, wedi codi ymwybyddiaeth ehangach ar bob lefel o'r heriau a wynebir gan athrawon cyflenwi… nid ydynt wedi diflannu. Gwn sut mae athrawon cyflenwi yn cael eu trin yn effeithio ar sut y bydd pob athro yn cael ei drin ac rydym yn gweld tystiolaeth o hynny, gydag ymosodiadau ar gyflog, pensiynau ac amodau gwaith athrawon a gyflogir yn barhaol, ymosodiadau sydd wedi cael eu dioddef yn rhy hir gan athrawon cyflenwi. Mae angen i athrawon cyflenwi fod yn yr unig undeb a fydd yn ymladd eu hachos. Mae angen buddsoddiad enfawr ar gyfer athrawon cyflenwi, ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus, gwell cyflog ac amodau iddynt. Mae angen i athrawon cyflenwi gael eu gwerthfawrogi gan y Llywodraeth a chan gyflogwyr. A byddaf yn addo gwneud hawliau athrawon cyflenwi yn flaenoriaeth imi yn ystod fy mlwyddyn fel llywydd.

Mae heriau o'n blaenau. Mae gennym adroddiad ar AI yn ddiweddarach yn y Gynhadledd ac er bod llawer o fanteision sylweddol posibl, mae angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r perygl i swyddi addysgu. Felly dylem gofleidio'r manteision a ddaw yn sgil AI, ond ei gwneud yn flaenoriaeth i gadw pwysigrwydd yr athro fel bod dynol sy'n ysbrydoli ac yn creu cenhedlaeth y dyfodol, sy'n gosod gwerthoedd ac yn parchu'r anghenion i addysgu'r bod dynol cyfan.

Her arall yw'r cynnydd yn y mudiadau asgell dde eithafol. Mae addysg yn sbardun pwerus ar gyfer newid. Rwyf wedi bod ar orymdeithiau yn erbyn yr asgell dde yn y gogledd ddwyrain ac yn genedlaethol. Rydym wedi bod yn rhan o'r alwad am weithredu gan y TUC, EI ac ETUCE. Mae hwn yn gyfrifoldeb ar y system addysg gyfan: i ddweud na wrth eithafiaeth a chreu cymdeithas lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Os ydym yn ei weld, yn ei glywed, mae angen inni siarad - gweiddi os oes angen, i ddangos ei fod yn anghywir ac na ellir ei oddef. Nid tynnu coes yn unig mohono, a dyna ddiwedd arni.

Bydded dweud o'r gynhadledd hon ein bod yn dod ynghyd gan barhau i wella bywydau yr holl athrawon a'r plant mewn addysg. Mae angen i ni i gyd fynd allan a chael y tri gair hyn ar ein meddwl, RECRIWTIO, CADW AC ADENNILL. Mae angen i ni recriwtio mwy o athrawon i'n hundeb, Undeb yr Athrawon. Mae angen inni gadw'r staff sydd gennym mewn ysgolion drwy wneud y gweithle yn lle gwell i fod ynddo, i adael llonydd i athrawon addysgu yn eu ffordd eu hunain. Gwnawn hyn drwy adennill y proffesiwn; ni yw'r gweithwyr proffesiynol, a ni yw'r rhai sydd yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd. Gwyddom sut i gyflwyno gwersi. Gwyddom sut i gefnogi pob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion arbennig. Rydym yn gofyn am y gefnogaeth a'r adnoddau i'n galluogi i wneud ein swyddi.

Eleni dwi'n anelu at fod hwnt ac yma, yn cefnogi aelodau. Gyda phendantrwydd penderfynnol, gallwn ddatrys pethau i wneud y proffesiwn hwn yn fwy deniadol, i wneud ein system yn addysg o safon fyd-eang ledled y DU. Mae addysg o ansawdd uchel i bawb yn cynnwys cydnabod rôl hollbwysig athrawon sydd â chymwysterau uchel ac sy'n cael eu cefnogi'n dda. Yn awr ac yn y man, efallai na fyddaf yn gwneud pethau'n iawn, neu efallai na fyddaf yn gwneud penderfyniadau y mae rhai aelodau neu'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn cytuno â hwy, ond trwy gydol fy mlwyddyn byddaf bob amser yn anelu at wneud y rhai cywir.

Hoffwn weld pob ysgol a choleg a ariennir gan y wladwriaeth yn Lloegr yn dilyn y STCPD, heb unrhyw ddiffyg. Rhaid iddynt dalu i mewn i'r gronfa cyfleuster y mae'r undebau llafur cydnabyddedig yn ei defnyddio. Rhaid iddynt ganiatáu i gynrychiolwyr gael eu rhyddhau ar gyfer hyfforddiant. Rhaid iddynt gael cytundebau cydnabod undebau llafur.

Mae arnom angen Gwell Bargen i Athrawon.

Gwell adferiad tâl a chyflogau.

Gwell amodau gwaith.

Mwy o amser ar gyfer CPA.

Gostyngiad brys mewn oriau gwaith.

Gostyngiad brys yn y llwyth gwaith.

Ewch yn ôl at yr hyn a oedd gennym, ac nid yr hyn y mae Prif Weithredwyr yn meddwl y dylem fod yn gwneud mwy ohono.

Dim gweithgareddau allgyrsiol gorfodol.

Dim cyflenwi.

Dim disgwyl derbyn cam-drin geiriol.

Dim disgwyl derbyn ymosodiad corfforol. Ni ddylai unrhyw un sy'n gweithio mewn ysgol dderbyn hyn.

Dim cynlluniau medrusrwydd anffurfiol di-sail er mwyn dod o hyd i esgus i gael gwared ar athrawon, rhai drutach fel arfer.

Chi yw'r ysgrifenyddion nesaf, yr aelodau pwyllgor gwaith cenedlaethol nesaf, y swyddogion nesaf. Mae angen i ni i gyd ddod at ein gilydd, nawr, i sicrhau ein bod i gyd yn camu ymlaen i ddod â'r newidiadau sydd eu hangen arnom i wneud y proffesiwn hwn y gorau y gall fod.

Fe'ch gadawaf gyda hyn, a chredaf mai dyna sut y dylem i gyd fod yn meddwl, ond efallai nid pawb fydd yn cytuno.

Cofiwch, nid ydych yn gweithio i'r plant, eich cydweithwyr addysgu, UDRh, y llywodraethwyr, rheolwyr yr academi na'r prif swyddog gweithredol.

RYDYCH YN GWEITHIO I CHI.

Eich gallu i dalu eich morgais, eich rhent, rhoi bwyd ar y bwrdd i chi a'ch teulu, tanwydd yn y mesurydd, dillad ar eich cefn ac efallai ambell ddiod yn y dafarn leol – dim mwy.

Peidiwch â gadael i unrhyw floedd o 'er mwyn y plant' ddweud fel arall wrthych.

Carwch yr un rydych chi gydag ef, carwch eich undeb, oherwydd ni yw Undeb yr Athrawon, NASUWT.

Diolch, Gynhadledd.

NASUWT
THE TEACHERS' UNION

ROSE HILL
REDNAL
BIRMINGHAM
B45 8RS

Visit **nasuwt.org.uk**